Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bryn Clwyd
# Llandyrnog
# LL16 4EY

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Bryn Clwyd wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Llandyrnog, ger Dinbych. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos, ac mae yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Ar hyn o bryd, mae 31 o ddisgyblion ar y gofrestr, y mae pedwar ohonynt yn mynychu'r dosbarth meithrin rhan-amser, ac mae gweddill y disgyblion mewn dau ddosbarth oed cymysg.

Mae tua 21% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ychydig o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sef tua 30% o'r garfan. Mae'r gyfran hon ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref, a Saesneg mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad gartref. Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig.

Bu'r pennaeth yn y swydd er Mawrth 2015 ac mae'n rhannu ei amser rhwng Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor fel rhan o ffederasiwn ffurfiol. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Rhagfyr 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bryn Clwyd yn 2016-2017 yw £8,267. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych yw £8,267 a'r lleiafswm yw £3,066. Mae Ysgol Bryn Clwyd yn y safle cyntaf o'r 46 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando da, gallant ddarllen yn dda a chynhyrchu gwaith ysgrifenedig taclus, wedi ei gyflwyno'n dda ac o ansawdd da mewn gwahanol ffurfiau ar draws y cwricwlwm
- Gwna bron pob un o'r disgyblion gynnydd cryf mewn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth fathemategol, a gall llawer ohonynt gymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ym meysydd eraill y cwricwlwm
- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ac yn defnyddio amrywiaeth o becynnau meddalwedd yn hyderus i gyhoeddi eu gwaith
- Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn rhagorol
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn dda am gymryd tro ac yn fodlon gwrando ar farn pobl eraill
- Mae disgyblion yn gweithio'n effeithiol ac yn gydweithredol mewn grwpiau i rannu a datblygu eu syniadau

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae arweinwyr yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol â disgyblion a staff i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwelliant parhaus
- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol bwyllog ac ystyriol i'r ysgolion yn y ffederasiwn
- Mae arweinwyr yn nodi ac yn gweithredu strategaethau yn llwyddiannus i wella arweinyddiaeth, darpariaeth a deilliannau i ddisgyblion
- Mae penaethiaid cynorthwyol yn cyfrannu'n bwrpasol at dasgau arweinyddiaeth fel dadansoddi data a phennu blaenoriaethau strategol
- Mae arweinwyr yr ysgol yn arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol yn systematig trwy gylch o weithgareddau monitro sydd wedi eu cynllunio'n dda
- At ei gilydd, mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi dealltwriaeth gywir i arweinwyr o'i phrif gryfderau a'r meysydd i'w gwella; maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i sicrhau gwelliant
- Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau yn y ddwy ysgol yn y ffederasiwn a'u blaenoriaethau ar gyfer gwella

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i bob un o'r disgyblion ddylanwadu ar faterion sy'n effeithio arnynt yn yr ysgol

A2 Sicrhau bod cynllunio yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion ar draws pob maes dysgu

A3 Datblygu medrau uwch arweinwyr ymhellach i wella addysgu a dysgu

A4 Sicrhau bod gweithgareddau monitro yn arfarnu effaith darpariaeth yr ysgol ar safonau disgyblion a chynnydd yn effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n cyfateb yn fras i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus ag ymwelwyr am eu dysgu, gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoedran. Maent yn mynegi barn, gan roi rhesymau synhwyrol am eu syniadau. Mae llawer yn ymestyn eu syniadau trwy roi'r hyn y maent yn ei ddweud yn ei drefn, er enghraifft wrth benderfynu beth i'w roi ar ben crempog. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando ar oedolion a'i gilydd â diddordeb ac yn canolbwyntio'n dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau siarad yn effeithiol, er enghraifft wrth ddewis ansoddeiriau i'w defnyddio yn eu clipiau fideo am luniau o'r Aifft.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso llawer o dechnegau addas i'w helpu i ddeall yr hyn y maent yn ei ddarllen; er enghraifft, maent yn defnyddio medrau ffoneg yn effeithiol i ddarllen geiriau y maent yn cael trafferth â nhw. Maent yn darllen â mynegiant, gan roi sylw i ddyfynodau ac atalnodi arall. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen â mynegiant da, goslef ac ymwybyddiaeth o atalnodi. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen ac yn dangos dealltwriaeth briodol o gymeriadau a phlot. Mewn llawer o achosion, gwna disgyblion ragfynegiadau synhwyrol am yr hyn a all ddigwydd ar sail eu gwybodaeth flaenorol a'u dealltwriaeth o'r stori. Maent yn defnyddio eu medrau ymchwilio yn llwyddiannus i lithr ddarllen a dod o hyd i wybodaeth, er enghraifft wrth ddysgu am goedwigoedd glaw.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o sillafu a strwythur brawddegau, ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o atalnodi sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o ddiben ysgrifennu wrth iddynt ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau, er enghraifft wrth gynnwys dechrau, canol a diweddglo yn eu storïau am ddreigiau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill dealltwriaeth dda o ystod eang o arddulliau a ffurfiau ysgrifennu at wahanol ddibenion. Mae ganddynt eirfa helaeth ac maent yn defnyddio trosiadau, cyffelybiaethau ac ansoddeiriau yn effeithiol i wella bywiogrwydd iaith ac i ennyn diddordeb y darllenwr. Fel arfer, maent yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn dda mewn pynciau eraill; er enghraifft, yn eu gwaith hanes, mae disgyblion yn ysgrifennu rhestr resymegol o gynhwysion i wneud colur yr oedd yr Eifftiaid yn ei ddefnyddio. Mae'r lleiafrif sy'n fwy abl yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig taclus sydd wedi ei gyflwyno'n dda.

Gwna bron pob un o’r disgyblion gynnydd cryf wrth ddatblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth fathemategol. Gall llawer ohonynt gymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol i feysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau trin data yn dda i lunio graffiau bar ar nifer y goliau y mae pêl-droedwyr wedi eu sgorio, a siart cyfrif am anifeiliaid Arctig. Gall llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 fesur a chofnodi elastigedd deunyddiau yn eu hymchwiliadau gwyddonol, a chreu graffiau i gyfleu eu canlyniadau’n effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall disgyblion gymhwyso eu medrau ymresymu a datrys problemau yn dda.

Gwna’r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn dangos brwdfrydedd tuag at ddysgu a defnyddio’r iaith. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau ac fel arfer yn ymateb yn briodol i gwestiynau yn y Gymraeg. Mae llawer ohonynt yn galw geiriau cyffredin i gof ac yn eu hynganu’n dda, fel enwau anifeiliaid. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus wrth adrodd cerddi ac wrth ddefnyddio ymadroddion a chyfarchion Cymraeg syml. Maent yn darllen testun Cymraeg â lefelau digonol o rugldér, ond mae eu dealltwriaeth o’r hyn y maent wedi ei ddarllen yn gyfyngedig. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml yn llwyddiannus; er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyrau at Siôn Corn i ddisgrifio eu hunain a’u diddordebau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Mae gan bron pob un o’r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o e-ddiogelwch. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o becynnau meddalwedd yn hyderus ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith a llechi cyfrifiadurol i lunio taflenni a phosteri, ac i gyhoeddi eu gwaith ysgrifenedig. Yn y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ysgrifennu testun syml ar raglen prosesu geiriau a chreu lluniau i ategu eu hysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cyfathrebu ac yn cyflwyno gwybodaeth yn ddychmygus gan ddefnyddio rhaglenni prosesu geiriau, camerâu digidol a chymwysiadau i greu clipiau fideo â sain. Gwna’r rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnydd da o’r rhyngrwyd i ymchwilio i lawer o bynciau, ac maent yn defnyddio’r wybodaeth hon i lunio cyflwyniadau addysgiadol sy’n cynnwys sain a graffeg. Mae medrau disgyblion o ran creu ac archwilio eu taenlenni a’u cronfeydd data eu hunain yn datblygu’n briodol.

Mae nifer fach y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn golygu ei bod yn anodd nodi tueddiadau mewn perfformiad disgyblion neu lunio casgliadau dilys ynghylch perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg eraill. O ganlyniad, mae’r data yn dangos bod perfformiad disgyblion mewn asesiadau athrawon yn y deilliannau disgwyliedig ac uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf, yn gyffredinol, o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae niferoedd bach y disgyblion yn golygu bod cymariaethau o berfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a pherfformiad bechgyn o gymharu â merched, yn annibynadwy.

**Lles: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a chefnogol lle mae bron pob un o’r disgyblion yn dangos ymdeimlad cryf o berthyn. Mae disgyblion yn teimlo’n hapus ac yn ddiogel

yn yr ysgol, ac yn gwybod beth i'w wneud os oes angen cymorth neu help arnynt. Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir o'r angen i gynnal ffordd iach o fyw a phwysigrwydd diet cytbwys ac ymarfer corff rheolaidd. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol yn ymwneud ag iechyd, fel gymnasteg a phêl-rwyd. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd datblygu corff ac ymennydd iach trwy gymryd rhan mewn gwersi ioga gwerthfawr.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn rhagorol mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn dangos parch a phryder tuag at oedolion a'u cyfoedion, ac yn cymryd gofal arbennig o'i gilydd wrth iddynt ryngweithio mewn gwersi, yn ystod amser egwyl ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth ag aeddfedrwydd ac yn canolbwyntio'n dda. Mae bron pob un ohonynt yn dda am gymryd tro ac yn fodlon gwrando ar farn disgyblion eraill. Maent yn gweithio'n effeithiol ac yn gydweithredol mewn grwpiau i rannu a datblygu eu syniadau.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r eco-bwyllgor yn cymryd eu rolau o ddifrif ac yn mynegi eu syniadau'n glir. Er enghraifft, maent wedi sefydlu blwch awgrymiadau lles yn yr ysgol i rannu eu teimladau neu eu pryderon yn briodol, ac maent yn gwerthu cynnyrch o'r ardd i ddatblygu medrau gwyddoniaeth ac entrepreneuriaeth gwerthfawr. Mae disgyblion yn teimlo bod staff yn gwrando ar eu syniadau ac yn credu y gallant wneud rhagor o gyfraniadau cadarnhaol i fywyd yr ysgol o ran beth a sut maent yn dysgu. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau y mae hyn, ac nid yw'r cyngor ysgol yn cynnwys disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen yn ddigon da yn ei weithgareddau ar hyn o bryd.

Mae gan ddisgyblion gysylltiadau da â'r gymuned leol; er enghraifft, maent yn canu yn yr eglwys leol ac mewn lleoliadau eraill adeg y Nadolig. Mae disgyblion yn codi arian ar gyfer elusennau yn rheolaidd, gan gynnwys cefnogi digwyddiadau blynyddol fel 'Den Day' a her ddarllen 'Readathon' i helpu pobl eraill mewn angen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Er bod y niferoedd disgyblion cymharol fach yn gwneud cymariaethau'n anodd, mae cyfraddau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf yn rhoi'r ysgol uwchlaw'r canolrif, yn gyffredinol, o gymharu ag ysgolion eraill.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu o ansawdd da sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn effeithiol. Mae profiadau dysgu yn ddychmygus ac yn sbarduno diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Nid yw cynlluniau tymor hir, tymor canolig a thymor byr wedi eu cysylltu'n ddigon cydlynus bob tro. O ganlyniad, nid yw cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion yn ddigon systematig bob tro.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn caffael y medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh sydd eu hangen i allu manteisio ar y cwricwlwm ehangach yn llwyddiannus ac

i ddatblygu'r medrau hyn yn dda mewn ystod o gyd-destunau yn y ddau gyfnod allweddol. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n hyrwyddo annibyniaeth disgyblion yn dda ac yn datblygu eu medrau datrys problemau a'u medrau meddwl yn effeithiol. Mae'r ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, clybiau ac ymweliadau amrywiol yn cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda ac yn darparu gweithgareddau addas, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a hanes Cymru, trwy ymweld ag amrywiaeth o safleoedd hanesyddol a lleoedd diddorol eraill, fel Caerdydd a gwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn. Mae gweithgareddau fel gwasanaethau a chystadlaethau'r Urdd, ynghyd â gweithgareddau cwricwlaidd diddorol fel pobi cacennau cri, yn gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol disgyblion yn effeithiol.

Mae darpariaeth effeithiol i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a datblygu dealltwriaeth o'r rôl y maen nhw a phobl eraill yn ei chwarae yn y gymdeithas. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff. Mae darpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol yn yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn cynllunio ac yn cyflwyno gwersi bywiog sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Maent yn cynnal ymgysylltiad disgyblion yn llwyddiannus trwy amrywio'r gweithgareddau a defnyddio ystod eang o ddeunyddiau ac adnoddau electronig. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod dda o strategaethau addysgu sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn galluogi disgyblion i lwyddo yn eu tasgau. Mae rhediad da i'r rhan fwyaf o wersi ac maent yn cynnal diddordeb disgyblion yn dda. Mae gan wersi strwythur clir ynghyd ag amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant priodol. Mae athrawon a staff cymorth yn annog disgyblion yn llwyddiannus i gydweithio â'i gilydd yn ystod gwersi, ac yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain.

Mae athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dda; er enghraifft, maent yn annog ac yn cynorthwyo disgyblion i arfarnu ansawdd eu gwaith eu hunain, a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus. Mae athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth amserol i ddisgyblion sy'n eu galluogi i wella eu gwaith yn effeithiol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ystyried ac ymateb i adborth ysgrifenedig yn fanylach yn datblygu'n briodol; er enghraifft, mae athrawon yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ddrafftiau cyntaf o'u gwaith ysgrifenedig ac yn awgrymu ffyrdd y gallent eu gwella fel rhan o broses ailddrafftio.

Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn defnyddio ystod o asesiadau i fesur pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni, ac yn casglu a dadansoddi ystod o ddata gwerthfawr ar gynnydd disgyblion unigol, grwpiau a charfanau ar draws yr ysgol. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus i nodi lle mae angen cymorth ac i osod targedau cywir a heriol.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd a lles eu plant mewn adroddiadau diwedd blwyddyn manwl a chyfarfodydd rheolaidd i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn dda ac yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn effeithiol trwy wasanaethau'r ysgol a gweithgareddau niferus yn y gymuned leol. Mae ymweliadau â chanolfannau celf lleol a safleoedd hanesyddol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau yn yr ysgol a chlybiau ar ôl ysgol sy'n hyrwyddo eu datblygiad corfforol yn dda. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn cyfrannu at eu lles.

Mae gweithdrefnau ar gyfer cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol. Gwneir defnydd da o asiantaethau arbenigol, gan gynnwys yr heddlu, therapyddion iaith, gwasanaeth cwnsela, seicolegwyr addysgu a'r gwasanaeth iechyd. Mae'r rhain yn sicrhau bod disgyblion yn cael help a chymorth priodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae gweithdrefnau'n drylwyr ac yn galluogi staff i nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Mae staff yn defnyddio rhaglenni ymyrraeth pwrpasol i ymateb yn llwyddiannus i anghenion unigolion a grwpiau. Mae staff yn darparu cynlluniau addysg unigol manwl i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys targedau clir, ac maent yn trafod y rhain â rhieni wrth eu hadolygu. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ethos gofalgar yr ysgol yn annog disgyblion i drin pobl eraill â pharch a goddefgarwch. Mae'r staff yn sicrhau bod gan y gwerthoedd hyn ffocws naturiol ym mywyd beunyddiol yr ysgol. Gall pob disgybl fanteisio'n gyfartal ar y cwricwlwm a'r ystod eang o glybiau allgyrsiol sydd ar gael.

Mae'r ysgol wedi datblygu ei thir yn llwyddiannus i gyfoethogi dysgu a datblygiad corfforol disgyblion. Gall disgyblion fanteision ar ystod o ardaloedd awyr agored, gan gynnwys un a luniwyd i ddatblygu eu medrau goroesi. Gwna hyn gyfraniad da at eu gwerthfawrogiad o'r amgylchedd ac at eu lles cyffredinol. Trwy'r ysgol gyfan, mae enghreifftiau o arddangosiadau sy'n dathlu gwaith disgyblion a threftadaeth leol yn effeithiol. Mae adeiladau'r ysgol yn lân ac wedi eu cynnal a chadw'n dda, ac maent yn darparu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr yr ysgol wedi cydweithio'n effeithiol â disgyblion a staff i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r weledigaeth hon yn bodloni anghenion pob ysgol yn y ffederasiwn yn dda. Mae'r pennaeth yn rhagweithiol wrth geisio gweithio ar y cyd ag ysgolion lleol eraill i sicrhau gwelliannau, ac mae'n darparu arweinyddiaeth strategol bwyllog ac ystyriol i'r ffederasiwn o ysgolion. Mae arweinwyr yn nodi ac yn gweithredu strategaethau'n llwyddiannus i wella arweinyddiaeth, darpariaeth a deilliannau i ddisgyblion; er enghraifft, mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gwella gwaith athrawon unigol yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn rhannu hyn ac agweddau eraill ar arfer orau ar draws y ffederasiwn yn ddigon da. Mae staff yn dechrau cydweithio'n llwyddiannus, er enghraifft i gymedroli safonau gwaith a rhannu cynllunio'r cwricwlwm.

Mae strwythur staffio addas i fodloni anghenion yr ysgolion. Mae trefniadau i ddosbarthu cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn effeithiol, yn gyffredinol. Mae penaethiaid cynorthwyol yn cyfrannu'n bwrpasol at dasgau arweinyddiaeth, fel dadansoddi data a phennu blaenoriaethau strategol. Maent hefyd yn arwain darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael ei datblygu y mae ei rôl mewn arwain addysgu a dysgu. Mae staff sy'n gyfrifol am fentrau gwella eraill yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n dda, ar y cyfan. Mae hyn yn cynorthwyo'r ysgol i wneud cynnydd da o ran rhoi blaenoriaethau cenedlaethol ar waith, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a blaenoriaethau gwella'r ddwy ysgol yn y ffederasiwn. Maent yn dwyn yr ysgolion i gyfrif yn briodol am eu perfformiad. Maent yn cyfrannu'n briodol i brosesau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a gwella; er enghraifft, mae pwyllgor y cwricwlwm yn cynnal archwiliadau defnyddiol o ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer TGCh. Mae llywodraethwyr yn gwirfoddoli yn yr ysgol i ddarparu cymorth cwricwlwm defnyddiol, er enghraifft i helpu â darllen yn Gymraeg. Maent yn holi arweinwyr yr ysgol yn briodol ynghylch defnyddio arnoddau, er enghraifft i wella darpariaeth i ddisgyblion mwy abl. Mae llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cynorthwyo i wella'r ysgol yn briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr yr ysgol yn arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol yn systematig trwy gylch o weithgareddau monitro sydd wedi eu cynllunio'n dda. Mae'r rhain yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r agweddau ar ei gwaith ac yn dilyn fformat cyson ar draws yr ysgolion yn y ffederasiwn. Mae arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad yn dda. Er enghraifft, mae adolygiadau rheolaidd o berfformiad disgyblion a dadansoddi profion diagnostig yn cynorthwyo arweinwyr i gynllunio darpariaeth i ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn monitro cynllunio athrawon yn ofalus i sicrhau bod darpariaeth dda i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion mewn ffordd

systematig. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n briodol i brosesau hunanarfarnu a gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol trwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau monitro hyn yn arfarnu'n ddigon da effaith darpariaeth yr ysgol ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni neu'r cynnydd a wnânt. Mae disgyblion yn cyfrannu at weithgarwch hunanarfarnu yn achlysurol; er enghraifft, gwnaethant ofyn am gyfleoedd ychwanegol i ddysgu yn yr awyr agored. Mae arweinwyr wedi ymateb i'r safbwyntiau hyn yn brydlon, er enghraifft trwy ddatblygu darpariaeth effeithiol ar gyfer mathemateg yn yr amgylchedd awyr agored.

At ei gilydd, mae'r broses hunanarfarnu yn darparu dealltwriaeth gywir i athrawon o brif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i sicrhau gwelliant. Mae cynlluniau datblygu yn fanwl ac yn nodi costau, amserlenni a meini prawf llwyddiant addas. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid yn dda i roi'r cynlluniau hyn ar waith yn llwyddiannus, er enghraifft i godi safonau mewn mathemateg ac i wella ansawdd darpariaeth i ddatblygu medrau TGCh disgyblion. Mae trefniadau da i ategu gwella'r ysgol â chyfleoedd perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol, fel y rhaglen athrawon rhagorol. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd tuag at gyflawni nodau gwelliant yn dda.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau adolygiadau allanol. Er enghraifft, mae gwaith buddiol â'r consortiwm rhanbarthol wedi cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu gweithgareddau cyson ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod helaeth o bartneriaethau llwyddiannus yn ategu cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol. Gwna rhieni ac aelodau'r gymuned gyfraniadau gwerthfawr i waith yr ysgol, er enghraifft trwy godi arian i brynu adnoddau a darparu profiadau dysgu gwerthfawr, fel y clwb eco a'r clwb garddio. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgolion a rhieni, er enghraifft trwy gylchlythyrau wythnosol. Mae'r rhain yn dathlu cyflawniadau'r ysgol ac yn helpu rhieni i gynorthwyo eu plant yn yr ysgol.

Mae cysylltiadau buddiol â grwpiau cyn-ysgol, sy'n helpu disgyblion i ymgartrefu'n rhwydd yn yr ysgol. Mae trefniadau addas i gynorthwyo trosglwyddo disgyblion i addysg uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys ystod ddefnyddiol o weithgareddau ymsefydlu a rhannu gwybodaeth briodol yn ymwneud â chyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Mae prosesau effeithiol â'r clwstwr lleol o ysgolion i gymedroli cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6. Mae cysylltiadau ag ysgolion cynradd lleol yn datblygu'n dda, ac mae gweithgareddau ar y cyd ac arsylwi arfer dda yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae partneriaethau gwerthfawr â'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Mae cysylltiadau pwrpasol ag ystod dda o sefydliadau yn y gymuned a busnesau lleol. Mae partneriaeth arloesol â hufenfa leol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i ddatblygu eu medrau dylunio a chyflwyno. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar gymorth gan rieni a gwirfoddolwyr o'r gymuned i wella eu medrau darllen Cymraeg a'u hyder wrth siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol dîm o athrawon a staff cymorth â chymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol.  Mae arweinwyr yn defnyddio staff yn effeithlon ac yn sicrhau y gwnânt ddefnydd da o arbenigedd staff.  Mae'r holl athrawon yn cael amser digonol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.  Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynorthwyo disgyblion yn dda i wneud cynnydd da mewn dysgu.  Mae arweinwyr yn rheoli'r adeilad, y safleoedd a'r adnoddau yn dda.

Mae arweinwyr yn nodi cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ddatblygu eu medrau proffesiynol i wella eu harfer a bodloni nodau gwella'r ysgol; er enghraifft, mae hyfforddiant staff yn effeithiol o ran galluogi disgyblion i ddefnyddio medrau TGCh ar draws sawl agwedd ar eu gwaith.  Mae staff yn cyfrannu'n effeithiol at rwydweithiau dysgu proffesiynol ag ysgolion eraill i rannu arfer dda.  Mae'r ffederasiwn yn gweithio'n gydweithrediadol ac yn effeithiol i ddatblygu meysydd fel arfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn cadw rheolaeth dda o adnoddau ariannol yr ysgol ac yn rhagfynegi anghenion gwariant y dyfodol yn dda.  Lle y bo'n berthnasol, gwnânt ddefnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion.  O ganlyniad, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael eu targedu gynnydd da, er enghraifft trwy wella eu medrau ysgrifennu a rhifedd.

Oherwydd y safonau da y mae disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 22 | 22<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 22 | 22<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 22 | 22<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 22 | 21<br>95%<br>97% | 1<br>5%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 22 | 22<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 22 | 22<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 22 | 22<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 22 | 22<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 22 | 21<br>95%<br>90% | 1<br>5%<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 22 | 22<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 22 | 21<br>95%<br>77% | 1<br>5%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 22 | 21<br>95%<br>84% | 1<br>5%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Tony Bate | Arolygydd Cofnodol ar gyfer y ffederasiwn |
| Vanessa Bowen | Arolygydd Tîm |
| Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Dilys Ellis-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Richard Monteiro | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.